# Cynllun Noson Allan - telerau'r cytundeb

Dyma ymrwymedigaethau ar yr hyrwyddwyr, y perfformwyr a Chyngor Celfyddydau Cymru pan gefnogir perfformiad gan Noson Allan

Mae'r ffurflen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

Mae'r cytundeb i hyrwyddo digwyddiad dan gynllun Noson Allan rhwng y sefydliad cymunedol sy'n ei groesawu ac sydd â hygyrchedd i leoliad addas (yma 'yr hyrwyddwr') ac artist neu gwmni sy'n perfformio (yma 'y perfformiwr'). Ariennir y fath gytundebau drwy Noson Allan y Cyngor a gaiff yr arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Dibynna'n hariannu ar y ffaith bod pob parti'n cadw at yr ymrwymedigaethau isod. Unwaith bod yr arian wedi'i dderbyn mae'n ddealledig bod pob parti wedi cytuno i'w cyfrifoldebau.

## Ymrwymedigaethau Noson Allan

Ceisiwn ddatblygu cyfleoedd i sefydliadau cymunedol (nad ydynt yn gyffredinol yn rhan o seilwaith y celfyddydau proffesiynol) gynnal perfformiadau proffesiynol i gynulleidfaoedd lleol.

- Darparwn gyngor a chefnogaeth i hyrwyddwyr a pherfformwyr gan geisio sicrhau ymarfer da a ffydd dda rhwng pob parti
- Ymgeisiwch ar-lein: www.nosonallan.org.uk neu defnyddiwch ffurflen archebu Noson Allan
- Os derbynnir cais, talwn ffi y cytunwyd arni ymlaen llaw i'r perfformiwr pan gawn ei anfoneb a'i ffurflen adrodd
- Fel arfer gwarentir yr hyrwyddwr yn erbyn colled gennym ni a'i awdurdod lleol. Wedyn rhydd yr hyrwyddwr inni arian y drws. Dibynna union eiriad pob cytundeb ar gost y perfformiad a manylir ar hon yn y llythyr cadarnhau
- Ni allwn ariannu costau a gaiff yr hyrwyddwr wrth logi lleoliad neu offer. Rhaid trafod ymlaen llaw unrhyw drefniadau arbennig o ran defnydd yr incwm tocynnau ac ysgrifennu hyn yn y llythyr cadarnhau
- Ni allwn ariannu digwyddiadau a hyrwyddir gan y perfformwyr eu hunain

## Ymrwymedigaethau'r perfformiwr

Rhaid i'r perfformiwr geisio darparu gwasanaeth ardderchog i'r hyrwyddwr ac felly rhaid iddo wneud y canlynol:

- cytuno ymrwymo i egwyddorion cyfle cyfartal ac ymddygiad gwrthwahaniaethol
- cyflwyno perfformiad yn unol â'r disgrifiad a roddir i'r hyrwyddwr ac i ni
- sicrhau pob caniatâd a thrwydded angenrheidiol lle perchnoga trydydd parti hawliau perfformio neu hawlfraint y gwaith yn rhannol neu'n gyfan. Talu pob cost angenrheidiol arall i sicrhau cyflwyno'r perfformiad heblaw am y rhai cysylltiedig â darparu'r lleoliad
- yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol
- darparu i'r hyrwyddwr gyhoeddusrwydd a deunyddiau hyrwyddo ar ddyddiad ac yn y nifer y cytunwyd yn eu cylch â'r hyrwyddwr sy'n ddigonol i'r hyrwyddwr hysbysebu'r perfformiad i'r cyhoedd; gwneud y gorau glas i sicrhau y cydnabyddir Noson Allan bob tro y crybwyllir y perfformiad yn gyhoeddus gan gynnwys cyfweliadau yn y cyfryngau ac ati
- cadw at yr arferion diogelwch proffesiynol gorau mewn unrhyw addasiad dros dro o berfformiad yn y lleoliad a ddarperir gan yr hyrwyddwr; rhaid i bob teclyn trydanol y cymer y perfformiwr i'r lleoliad fodloni rheoliadau cyfredol o ran profi teclynnau cludadwy
- symud oddi yno bob offer ac eiddo cysylltiedig â'r perfformiad cyn y dyddiad y cytunwyd yn ei gylch gan y perfformiwr a'r hyrwyddwr
- gadael rhan y lleoliad a ddefnyddia'r perfformiwr mewn cyflwr da a glân a digolledu'r hyrwyddwr am unrhyw niwed a wneir neu ei warantu am unrhyw niwed a wneir gan y perfformiwr, ei asiantiaid neu ei weision i'r lleoliad, ei ddodrefn, ei gelfi, ei osodiadau a'i ffitiadau
- anfonwch neu e-bostiwch anfoneb a ffurflen adrodd i gael tâl

Ymrwymedigaethau'r hyrwyddwr

Rhaid i'r hyrwyddwr weithio er llwydd y digwyddiad a rhaid iddo wneud y canlynol:

- darparu ar gyfer y perfformiad leoliad ar ei gost ei hun a gefnogir gan wirfoddolwyr neu staff blaen tŷ, a sicrhau y telir unrhyw ffioedd, costau neu wariant a godir gan berchennog y lleoliad
- cael yswiriant a thrwyddedu cywir ar gyfer y perfformiad (os nad oes gan y lleoliad drwydded adloniant, rhaid ceisio gan amlaf Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro gan yr awdurdod lleol a dylid ymgeisio o leiaf 10 diwrnod cyn y digwyddiad)
- cyflwyno cais archebu dilys inni mewn da bryd i gadarnhau trefniadau a chyhoeddi'r digwyddiad yn iawn (yn sicr dylai hyn fod o leiaf 4 wythnos cyn y digwyddiad)
- gwneud y gorau glas gan dynnu ar wybodaeth leol i gael cynulleidfa ynghyd gan gynnwys dangos posteri, deunyddiau hyrwyddo'r perfformiwr a thrwy ei hysbysebu ar lafar ac yn y cyfryngau cymdeithasol
- ymgymryd ag asesiad perygl cyffredinol i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac os trefnir gweithdai gyda phobl ifainc, sicrhau y trefnir gwiriadau troseddol a chael y polisïau perthnasol
- sicrhau bod ar holl gyhoeddusrwydd y perfformiad logo Noson Allan (ar gael yma: www.nosonallan.org.uk) ac y dangosir y daflen gredyd a ddarperir mewn man amlwg. Gwneud pob ymdrech i sicrhau y cydnebydd pob cyfeiriad cyhoeddus at y perfformiad, gan gynnwys cyfweliadau yn y cyfryngau, Noson Allan y Cyngor ac y rhydd cydnabyddiaeth mewn cyflwyniadau cyn y sioe
- Estyn pob croeso i'r perfformiwr drwy sicrhau bod y lleoliad ar agor iddo am gyfnod y cytunir arno cyn, yn ystod ac ar ôl y sioe; diwallu anghenion rhesymol y perfformiwr a dylai fanylu ar y rhain ymlaen llaw gan gynnwys cynnig lluniaeth yn rhad ac am ddim tra bo yn y lleoliad
- llenwi a dychwelyd ffurflen adrodd yr hyrwyddwr fel y gofyn y llythyr cadarnhau mewn 10 diwrnod o'r perfformiad. Dylech gadw pob bonyn tocyn a phob tocyn heb ei werthu rhag ofn y bydd eu heisiau at ddibenion archwilio

Canslo perfformiad unwaith bod pawb wedi cytuno â'r contract (pob parti)

Rhaid rhoi gwybod i ni ar unwaith

I. Os mai amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y partïon yw'r rheswm am ganslo, dylid gwneud pob ymdrech i aildrefnu ar ddyddiad hwyrach y cytunir arno. Os yw hyn yn amhosibl, ystyrir bod y contract wedi'i ddiddymu. Pan nad ydys yn sicr am reswm y canslo, disgresiwn Pennaeth Noson Allan a all weithredu cymal II isod (ond fel arfer pan na all yr hyrwyddwr fod yn rhan o'r broses).

II. Os cansla'r hyrwyddwr heb fod bai ar y perfformiwr a lle na ellir aildrefnu'n rhesymol, talwn gyfran o'r ffi y cytunwyd arni i'r perfformiwr wedi'i chyfrif o ddyddiad cael gwybod fel a ganlyn:

Lle canslir

| | |
|---|---|
| (a) llai na 7 diwrnod cyn y perfformiad | Tâl llawn |
| (b) rhwng 8 a 21 diwrnod cyn y perfformiad | Tâl o ddwy ran o dair |
| (c) rhwng 22 a 49 diwrnod cyn y perfformiad | Tâl o un rhan o dair |
| (ch) rhagor na 49 diwrnod cyn y perfformiad | Dim |

Yn y fath amgylchiadau tâl pwy bynnag sydd wedi gwarantu cyfraniad yr hyrwyddwr y gyfran ddyledus o'r swm yn uniongyrchol i ni. Hoffem rybuddio hyrwyddwyr a gaiff warant awdurdod lleol y gall yr awdurdod ofyn am gyfraniad tuag at y tâl hwnnw

(iii) Os cansla'r perfformiwr am resymau eraill nas crybwyllir ym mhwynt I uchod, ni thelir y ffi a dylid cytuno gan bob parti ar indemniad rhesymol am y colledion a gafwyd.

(iv) Pan fo anghydfod am reswm y canslo, dylai'r hyrwyddwr a'r perfformiwr gyflwyno eu sylwadau'n ysgrifenedig inni mewn 10 diwrnod o'r canslo er mwyn i Bennaeth Noson Allan benderfynu'n derfynol ar y mater.